



1 Ebrill 2020

Annwyl Aelodau'r Cymunedau Tsieineaidd,

Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i gymunedau yng Nghymru yn ystod y cyfnod ansicr hwn, nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen.

Rwy'n cydnabod ein bod mewn cyfnod anodd, ac felly bod pobl yn bryderus am wahanol agweddau ar effaith y feirws a llawer o bobl anabl yn teimlo'n fregus tu hwnt. Rydym wedi bod yn symud ac yn ail-flaenoriaethu adnoddau i ymateb yn gyflym ac yn briodol i gefnogi ein cymunedau ac, yn enwedig, yr aelodau mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i baratoi Cymru ar gyfer Covid 19. Rydym yn cydweithio â'r tair gweinyddiaeth arall yn y Deyrnas Unedig, y gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru, er mwyn cynllunio'r ymateb a chymorth i liniaru'r effaith. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn gweithio'n galed iawn ac yn paratoi i roi gofal ac i drin pobl sy'n mynd i fod yn wael iawn o ganlyniad i'r feirws. I gael yr wybodaeth a'r cyngor diweddaraf, ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>

Er mwyn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau gan Lywodraeth Cymru, ac am unrhyw gyngor, ewch i'n gwefan bwrpasol, sef <https://llyw.cymru/coronafeirws>.

Os ydych yn dymuno gwirfoddoli i gynnig unrhyw fath o gymorth dros y cyfnod hwn, gallwch gysylltu â'ch Cyngor Gwirfoddol Lleol, neu mae croeso i chi gofrestru ar borthol Gwirfoddoli Cymru - <https://volunteering-wales.net/cy> (mae'r wefan hon bellach yn cynnwys categori ar gyfer Covid-19 (Coronavirus) a themm chwilio y gall pobl ei ddefnyddio).

Os oes angen cymorth ychwanegol ar unigolion drostynt eu hunain, gan wasanaethau gwirfoddoli, gallant gysylltu â'r Canolfannau Gwirfoddoli yn eu hardal yn uniongyrchol. Mae'r manylion cyswllt ar: <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr wythnos hon lansiodd y Prif Weinidog ymgyrch newydd ynglŷn â sut i helpu pobl sy'n aros adref oherwydd coronafirws. Mae'r ymgyrch Edrych ar ôl ein Gilydd yn canolbwyntio ar y pethau bychain y gallwn ni i gyd eu gwneud i helpu ein gilydd yn ystod y pandemig. Mae'r wefan yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut y gellir cyflawni tasgau bob dydd yn ddiogel, fel mynd ar neges neu gadw mewn cysylltiad, heb ddod i gysylltiad corfforol er mwyn lleihau'r perygl o ddal y coronafirws. Byddwn yn eich annog i rannu'r wybodaeth hon ag eraill.
Gweler: <https://llyw.cymru/iach-a-diogel>

Ni ddylai unrhyw un orfod goddef rhagfarn neu droseddau casineb ac mae'n chwith gennyf glywed am ddigwyddiadau o'r fath yn cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwy'n annog aelodau o'r gymuned i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau fel hyn. Os oes unrhyw un yn y gymuned yn dyst i, neu'n cael gwybod am unrhyw ymddygiad bygythiol neu ddigwyddiadau'n ymwneud â throeddau casineb, gallant adrodd arnynt drwy gysylltu â'r heddlu neu'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth sy'n cael ei rhedeg gan Cymorth i Ddiodefwyr.

Mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi hyfforddi staff a gwirfoddolwyr arbennig a all ddarparu cymorth sydd wedi'i deilwra i bobl sydd wedi profi achosion o gasineb. Gellir cysylltu â nhw dros y ffôn neu drwy e-bost. Mae'r gwasanaeth am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Gellir cysylltu â'r gwasanaeth ar y ffôn: 0300 3031 982 neu ar e-bost: Hate.CrimeWales@victimsupport.org.uk neu ar-lein yn <https://www.reporthate.victimsupport.org.uk/>

Yn gywir,



Jane Hutt AC/AM

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip